Gweiddi

## Tasg 1

# Penrhyn Gŵyr

1. Mae'r darn uchod yn cynnwys llawer o ffeithiau. Nodwch **bump** ohonyn nhw yn y grid isod:

| | |
|---|---|
| Ffaith 1 | |
| Ffaith 2 | |
| Ffaith 3 | |
| Ffaith 4 | |
| Ffaith 5 | |

2. Sut gallwch chi fod yn siŵr fod y ffeithiau hyn yn rhai **dibynadwy**? Rhowch reswm.

Gwnewch restr fer o ffynonellau gwybodaeth **dibynadwy** ac **annibynadwy.**

3. Ydy rhai o'r ystadegau uchod yn eich synnu? Nodwch **dri ystadegyn** posibl.
Defnyddiwch y gystrawen hon wrth lunio eich ateb, os yw hynny o gymorth i chi.

*Cefais fy synnu gan yr ystadegyn fod ..........................., a hynny oherwydd ...*

**OND**, os na chawsoch chi eich synnu, rhowch wybod pam gan ddefnyddio'r gystrawen hon:

*Ni chefais fy synnu gan unrhyw un o'r ystadegau yn yr erthygl, a hynny oherwydd...*

4. Edrychwch ar y wybodaeth yn y pwyntiau bwled. O gofio bod 89 o bobl wedi marw ar yr arfordir dros y pum mlynedd diwethaf, gweithiwch allan o'r canrannau beth yn union yw niferoedd y bobl a fu farw:

- wrth gerdded
- wrth neidio i mewn/nofio
- wrth bysgota
- wrth eu gwaith

Faint o ddynion a fu farw ar yr arfordir dros y pum mlynedd diwethaf?

5. Bu'r RNLI yn targedu **un grŵp o bobl** yn arbennig yn eu hymgyrch 'Respect the Water'. O ddarllen yr erthygl, pa grŵp yw hwnnw, yn eich barn chi?

6. Cyfieithwch y term *'Respect the Water'*. Mae dwy ffordd bosibl o gyfieithu'r term yn Gymraeg. Beth ydyn nhw?

- 
- 

Dewiswch pa un fyddai fwyaf effeithiol yn eich barn chi.

7. Edrychwch ar yr ymgyrch ar www.rnli.org/respectthewater.
Pa mor effeithiol yw hi? Nodwch pam mae hi'n effeithiol, neu pam nad yw hi'n effeithiol.

8. Pa fath o ddamweiniau sy'n digwydd yn eich ardal chi? Ydyn nhw'n digwydd i grwpiau penodol o bobl?

Cynlluniwch ymgyrch i rybuddio pobl am beryglon eich ardal. Pa ddulliau y byddech chi'n eu defnyddio i dargedu grwpiau gwahanol, os oes angen gwneud hynny?